



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

Atodiad B - Adroddiad Ymgysylltu



Cyflwyniad

Sefydlwyd y Panel Adolygu Annibynnol ym mis Gorffennaf 2017 gan Lywodraeth Cymru.

Fe'i sefydlwyd i:

- archwilio rôl bosibl llywodraeth leol islaw cynghorau Awdurdod Lleol, gan dynnu ar arfer gorau
- diffinio'r model(au) /strwythur(au) mwyaf priodol i gyflawni'r rôl hon
- ystyried sut y dylid defnyddio'r modelau a'r strwythurau hyn ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys ystyried unrhyw sefyllfaoedd lle na fyddent yn angenrheidiol nac yn briodol.




Rhoddwyd cylch gwaith fwriadol eang i ni, gyda chyfle i fod yn radical os oes angen.

Nod yr adroddiad hwn

I gefnogi ein gwaith, gwnaethom ymgymryd â chyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu i chwilio am dystiolaeth a chasglu barn gan Gynghorau Cymuned a Thref eu hunain, rhanddeiliaid allweddol yn y gymuned ac aelodau'r cyhoedd.

Mae'r adroddiad ymgysylltu hwn yn nodi sut y gwnaethom ymgysylltu a phwy y gwnaethom ymgysylltu â hwy. Mae hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniasom, yn ogystal â chipolwg o'r adborth cynnar i'n hargymhellion.

Llinell Amser Ymgysylltu a Chyfathrebu



Crynodeb o'r Gweithgareddau Ymgysylltu

Crëwyd tudalen benodol ar [wefan Llywodraeth Cymru](#) i weithredu fel pwynt canolog ar gyfer gwybodaeth ynglŷn â'r adolygiad gyda chyfleoedd i bobl gymryd rhan a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

Ym mis Hydref 2017 datblygwyd a gweithredwyd cynllun ymgysylltu a chyfathrebu i gefnogi'r Adolygiad. Cafodd hwn ei dargedu at gyrraedd Cynghorau Cymuned a Thref a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, yn ogystal ag unigolion a grwpiau eraill y rhagwelid a fyddai'n cael eu heffeithio gan unrhyw newidiadau i'r sector. Felly roedd y gynulleidfa darged yn cynnwys:

- Pob Cyngor Cymuned a Thref
- Pob Awdurdod Lleol
- Holl aelodau'r gymuned (y cyhoedd yn gyffredinol)
- Grwpiau ieuenctid
- Sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol gan gynnwys Cynghorau Gwirfoddol Sirol
- Cyrff cynrychioliadol perthnasol megis Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Unigolion a oedd wedi mynegi diddordeb yn yr adolygiad o'r blaen.

Fe wnaethon ni anfon gwybodaeth yn cyflwyno ein hunain a'n hamcanion at y gynulleidfa oedd yn cael ei thargedu gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys:

- Negeseuon e-bost
- Llythyrau a bostiwyd
- Gwefan Llywodraeth Cymru
- Cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Roedd gweithgareddau a gytunwyd ac a weithredwyd fel rhan o'r gyfres o weithgareddau ymgysylltu yn cynnwys:

- Sefydlwyd blwch post penodol ar gyfer yr holl gyfathrebu ynghylch yr adolygiad. Adolygiad.CTC.Review@gov.wales
- Sefydlwyd hashnod pwrpasol ar gyfer yr adolygiad [#MyCommunityMyCouncil](#)
- Cymerwyd tystiolaeth yng nghyfarfodydd y Panel Adolygu
- Anogwyd cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig hefyd
- Cynhaliwyd ymweliadau â Chynghorau Cymuned a Thref unigol ledled Cymru er mwyn casglu tystiolaeth a barn



- Defnyddiwyd cyfarfodydd/digwyddiadau sefydliadau partner sefydledig ledled Cymru i gael barn ac adborth
- Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu rhanbarthol ledled Cymru
- Cynhaliwyd gweithdai wedi'u targedu gydag Awdurdodau Lleol yn gofyn barn ynghylch agweddau penodol o'r adolygiad
- Cyhoeddwyd arolygon ar-lein wedi'u targedu
- Cynhaliwyd sesiynau 'galw heibio' ledled Cymru
- Cyhoeddwyd cylchlythyrau rheolaidd bob dau fis. Gallwch ddod o hyd i cylchlythyrau cyfredol a rhai o'r gorffennol ar-lein yn:
<http://gov.wales/topics/localgovernment/communitytowncouncils/review-of-community-town-council-sector/?lang=cy>



Sesiynau Tystiolaeth

O fis Hydref 2017 hyd fis Mawrth 2018 gwahoddwyd ystod o gyrff i gyfarfod â ni yn ystod ein cyfarfodydd Panel i roi tystiolaeth lafar.

Roedd cyrff a wahoddwyd i roi tystiolaeth yn ein cyfarfodydd yn cynnwys:

- Un Llais Cymru - Hydref 2017
- Swyddfa Archwilio Cymru - Hydref 2017
- Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol - Tachwedd 2017
- Cyngor Cymuned Cwmbrân - Tachwedd 2017
- Cyngor Gwledig Llanelli - Tachwedd 2017
- Cyngor Gweithredu Gwrfoddol Cymru - Rhagfyr 2017
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg - Rhagfyr 2017
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot - Rhagfyr 2017
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru - Ionawr 2018
- Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol - Ionawr 2018
- Cyngor Cymuned Solfach a Gofal Solfach - Chwefror 2018.

Yn aml, roedd y cyrff hyn yn rhoi tystiolaeth ysgrifenedig i ni i gyd-fynd â'u tystiolaeth lafar. Weithiau gofynnwyd am dystiolaeth ysgrifenedig lle nad oedd angen mynychu'r sesiynau tystiolaeth, pan oedd y Panel Adolygu'n ystyried gwahanol fodelau cyflenwi o Bartneriaeth Penllyn, a chlwestwr Gogledd Maldwyn yn amlinellu eu gwaith i sefydlu Cwmni Buddiant Cymunedol.

Rhoddodd llawer o Gyngorau Cymuned a Thref dystiolaeth hefyd pan ofynnwyd iddynt ar bynciau gan gynnwys eu proses cyfethol ac amrywiaeth i fod yn sail i bapurau a baratowyd ar gyfer cyfarfodydd y Panel.

Tystiolaeth Ysgrifenedig

Derbyniwyd 27 darn o dystiolaeth ysgrifenedig i gyd. Roedd y dystiolaeth ysgrifenedig a dderbyniwyd yn amrywio o wybodaeth yr oeddem wedi gofyn amdani'n uniongyrchol a chyflwyniadau heb i gais gael eu gwneud amdanynt gan randdeiliaid. Cafwyd tystiolaeth nas gofynnwyd amdani hefyd gan sefydliadau megis Alcohol Concern Wales, Chwarae Cymru, Eglwysi ynghyd yng Nghymru a'r Loteri Fawr oedd i gyd yn amlinellu eu barn am ddyfodol Llywodraeth Leol yng Nghymru. Cawsom gyflwyniadau ffurfiol hefyd gan Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Ymweliadau â Chyngorau Cymuned a Thref ledled Cymru

O fis Tachwedd 2017, fe wnaethom ymweld â nifer o gyngorau Cymuned a Thref ledled Cymru, yn unigol ac ar y cyd, i gasglu tystiolaeth a barn y sector ei hun. Roedd yr ymweliadau hyn yn addysgiadol iawn ac fe wnaethant helpu i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r sector. Roedd yr ymweliadau hyn yn cynnwys:

- Cyngor Tref y Fenni
- Cyngor Tref Abertyleri a Llanhileth
- Cyngor Tref Bae Colwyn
- Cyngor Cymuned Boncath
- Cyngor Cymuned Capel Curig
- Cyngor Cymuned Clunderwen
- Cyngor Tref Crughywel
- Cyngor Cymuned Cwmdu a'r Cylch
- Cyngor Cymuned Dyffryn Clydach
- Cyngor Cymuned Graig
- Cyngor Cymuned Gwaun Cae Gurwen
- Cyngor Cymuned Hook
- Cyngor Cymuned Llandinam
- Cyngor Tref Llandudno
- Cyngor Cymuned Llangynidr
- Cyngor Cymuned Llangatwg
- Cyngor Cymuned Llangwm
- Cyngor Cymuned Treletert
- Cyngor Tref Aberdaugleddau
- Cyngor Cymuned Neyland
- Partneriaeth Ogwen
- Cyngor Doc Penfro
- Cyngor Tref Penfro
- Cyngor Tref Pontardawe
- Cyngor Cymuned Tŷ-du
- Cyngor Cymuned Saundersfoot
- Cyngor Tref Dinbych-y-pysgod
- Cyngor Cymuned Cwm Grwyne

Presenoldeb mewn cyfarfodydd /digwyddiadau sefydliadau partner ledled Cymru i gael barn ac adborth

Dros gyfnod yr Adolygiad, fe wnaethom ni fel aelodau'r Panel a'r Ysgrifenyddiaeth ar ein rhan fynychu amrywiaeth o gyfarfodydd, digwyddiadau a fforymau i roi diweddariadau ar gynnydd yr Adolygiad yn ogystal â hyrwyddo cyfranogiad yn yr Adolygiad. Roedd y rhain yn cynnwys:

Cynhadledd Genedlaethol Un Llais Cymru	Medi 2017
Digwyddiad Parod at y Dyfodol PLANED	Tachwedd 2017
Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol Cangen Morgannwg	Ionawr 2018
Cyfarfod Penaethiaid Polisi CLILC	Mawrth 2018
Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol Powys	Mawrth 2018
Pwyllgor Gweithredol Cenedlaethol Un Llais Cymru	Mawrth 2018
Fforwm Cynghorau Mwy Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol	Mawrth 2018
Pwyllgor Cyswllt Cymunedol Bro Morgannwg	Mawrth 2018
Fforwm Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr	Mawrth 2018
Fforwm Cyngor Sir y Fflint	Mai 2018

Digwyddiadau Ymgysylltu Rhanbarthol

Yn ystod mis Mawrth trefnwyd set o ddigwyddiadau ymgysylltu mawr ledled Cymru. Cynlluniwyd pum digwyddiad ar gyfer Mawrth 2018 ond fel pawb arall ar draws Cymru, fedren ni ddim rheoli'r tywydd! Cafodd y digwyddiad a oedd wedi'i drefnu gennym ar gyfer Dolfor, Y Drenewydd ei ganslo oherwydd eira ar ddechrau mis Mawrth ... ac eto yng nghanol mis Mawrth. Fe wnaethom benderfynu peidio ag aildrefnu'r digwyddiad, ond gofaliwyd bod y rhai a oedd i fod i ddod i'r digwyddiad yng nghanolbarth Cymru yn cael cyfle i rannu eu barn trwy ffyrdd eraill.

Er bod y digwyddiadau wedi bod yn agored i bob rhanddeiliad ac aelodau'r cyhoedd, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn bresennol yn aelodau ac yn glercod Cynghorau Cymuned a Thref. Cafodd y digwyddiadau gefnogaeth dda gyda 197 o bobl yn mynychu ar draws y pedwar digwyddiad. Casglwyd ystod o safbwyntiau ac awgrymiadau ac roedd llawer ohonynt yn debyg ar draws y rhanbarthau.

Cynhaliwyd digwyddiad Gogledd Orllewin Cymru yng Nghaernarfon, cynhaliwyd digwyddiad Gogledd Ddwyrain Cymru yn Wrecsam. Caerdydd gynhaliodd ddigwyddiad De Ddwyrain Cymru a Chaerfyrddin un De Orllewin Cymru. Isod ceir braslun o'r adborth a gafwyd ar draws yr holl ddigwyddiadau. Mae'r dyfyniadau a welwch yn rhai gair am air, a gymerwyd o adborth ysgrifenedig y sawl oedd yn mynychu ar y diwrnod.

C1. Beth ddylai Cynghorau Cymuned a Thref fod yn gyfrifol amdano?

"Llais y gymuned"

"Cynrychioli'r Gymuned o lefel llawr gwlad"



"Yn dibynnu ar y gyllideb! (dim staff dim adnoddau i wneud mwy)"

"Gwella profiad o fywyd yn yr ardal leol"

"Neuadd y dref, rhandiroedd, bysys gwennol, canolfan ailgylchu, mannau agored, cynllunio, canolfannau cymunedol, canolfannau teulu, sinemâu. Cyngorau Sir yn dweud beth maent yn gyfrifol amdano"

"Gwasanaethau sydd angen ateb lleol yn hytrach nag ateb lle mae un yn cael ei addasu i bob sefyllfa, a osodwyd gan y cyngor sir ee cynllunio"

"Dylai Cyngorau Cymuned a Thref gael y dewis i ddarparu'r hyn y maen nhw'n ei feddwl sydd orau i'w cymunedau a gweithio mewn partneriaeth / cydweithio"

"Dylai Cyngorau Cymuned a Thref fod â chynllun busnes fel y gallant gynllunio ar gyfer dyfodol cymunedau"

C2 - Sut y dylent weithredu?

"Capasiti, gallu a sgiliau cyngorwyr - mae angen rheoli newid a sgiliau newydd"

"Gallai mwy o bwerau a mwy o ymgysylltiad gan bobl ifanc wneud i bethau ddigwydd. Edrych ar anghenion lleol"

"Rhannu rolau - Cyngorau Cymuned a Thref Llai yn dod at ei gilydd i gyflogi clerc - creu endid ar wahân i gyflogi ac ati"

"Gweithio mewn partneriaeth â Chyngorau Cymuned a Thref cyfagos - clystyru - rhannu costau / cyfarpar a staff. Bod yn weladwy / delio â materion lleol / partneriaeth - cyfathrebu rheolaidd"

"Mae angen tynnu sylw at rôl y clerc neu ei phroffesiynoli (nid Cynorthwyr Personol ydyn nhw). Mae rôl pob clerc mor bwysig â'i gilydd (mae angen sicrhau bod y cymwysterau yn briodol a bod pawb yn ymwybodol o'r rheswm pam fod eu hangen / beth ydyn nhw!)"

"Dim ond hyn a hyn y gellir ei wneud (diffyg capasiti / offer)"



C3 - Beth sy'n eu rhwystro rhag darparu ar gyfer y gymuned leol?

"Diffyg perthynas / deialog barhaus gydag Awdurdodau Lleol"

"Mae rhai pethau'n cymryd rhy hir - biwrocratiaeth"

"Bwllo / aflonyddu o fewn y Cyngor Cymuned a Thref neu gan aelodau'r gymuned os ydych chi'n aelod o'r Cyngor Cymuned a Thref"



"Sgiliau - Cyfreithiol, Llywodraethu, TG, Eiddo, Cyllid, Adnoddau Dynol, Contractau - Ddim bob amser ar gael"

"Cyfyngiad ar y praesept, sut y gellir ei wario ac un prosiect."

"Arian"

"Arallgyfeirio hyfforddiant i gynnwys cylch gwaith ehangach hy sut i ymgysylltu â phobl iau"

"Diffyg eglurder ynghylch rôl. Dyw pobl ddim yn gwybod beth ydym ni a beth rydym yn ei wneud"

C4 - Sut mae cyngorau yn sicrhau eu bod yn cynrychioli eu cymuned leol yn y ffordd orau?

"Datblygu cynllun ymgysylltu cymunedol"
"Digwyddiadau ymgynghori cymunedol"
"Newid y proffil o ddynion gwyn 50+"
"Datblygu perthynas agosach â'r cyhoedd a sicrhau bod yr holl Gynghorwyr lleol yn ymgysylltu â'u wardiau a'u hardaloedd"
"Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gael pobl ifanc i gymryd rhan yn y cyngor cymuned (nextdoor.com) (survey monkey - arolygon syml byr) ffrwd Cwestiynau ac Atebion byw ar Facebook. Cylchlythyrau 2 x PA. yn rhoi diweddariad am yr hyn y maent yn gwario £ arno - angen meddwl am y boblogaeth hyn. Ei wthio drwy'r blwch llythyrau"
"Does gan y cynghorwyr ddim diddordeb mewn newid pethau"
"Cysylltiadau da â grwpiau /cymdeithasau lleol"



Yn ychwanegol at yr uchod, cynhaliwyd sesiynau galw heibio llai hefyd lle gwahoddwyd cynrychiolwyr o Gynghorau Cymuned a Thref o'r ardaloedd cyfagos. Roedd y digwyddiadau galw heibio hyn yn rhoi cyfle arall i randdeiliaid rannu eu barn a chyfle i ystyried yr un cwestiynau a godwyd yn y digwyddiadau ymgysylltu mwy.

Merthyr Tudful
Aberystwyth

Chwefror 2018
Ebrill 2018

Gweithdai Awdurdodau Lleol

Dyluniwyd pedwar gweithdy yn benodol i gasglu barn awdurdodau lleol. Cynhaliwyd y pedwar gweithdy yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Abertawe, Merthyr Tudful, Aberystwyth a Llandudno ym mis Ebrill. Mynychodd tri deg o gynrychiolwyr ar draws yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru y gweithdai hyn.

O dan y pedair thema a nodwyd yn yr adolygiad, ceir braslun isod o'r sylwadau a roddwyd.

Beth ydy Cynghorau Cymuned a Thref?

'Mae anghysonderau rhwng yr holl Gynghorau Cymuned a Thref'
'Dyw'r rhai llai ddim yn annog diddordeb / sgiliau i'r rôl'
'Bydd maint Cyngor Cymuned neu Dref yn cael ei bennu gan y disgwyliadau ohonynt i'r dyfodol'
'Efallai bod achos dros ddiddymu Cynghorau Cymuned a Thref os oes diffyg diddordeb yn yr haen hon o Lywodraeth Leol'
'Mae yna anawsterau lle mae diffyg ymdriniaeth gan Gynghorau Cymuned a Thref - yn arbennig o ran dirprwyo swyddogaethau'.

Beth mae Cynghorau Cymuned a Thref yn ei wneud?

'Mae angen i Gynghorau Cymuned a Thref fod ag ymagwedd Pwyllgor Ardal.'
'Dylai Cynghorau Cymuned a Thref fod yn gyfrifol am ddarparu'n lleol.'

'Mae pwerau Cyngorau Cymuned a Thref yn hen ffasiwn.'

'Nid oes gan Gyngorau Cymuned a Thref unrhyw ddyletswyddau o ran sut maent yn gweithredu'n gyffredinol.'

'Mae yna bolareiddio o ran archwaeth rhwng y Cyngorau Cymuned a Thref lleiaf a'r rhai mwyaf.'

Sut mae Cyngorau Cymuned a Thref yn ei wneud?

'Nid yw rhai cyngorwyr yn deall materion cyfreithiol / gofynion statudol Cyngorau Cymuned a Thref.'

'Nid yw rhai cyngorwyr hyd yn oed yn mynychu hyfforddiant sylfaenol ar y Cod Ymddygiad.'

'Mewn perthynas â chynghor arbenigol, mae gan Awdurdodau Lleol gefnogaeth gorfforaethol ac ystod eang o arbenigedd. Ond gallai clercod fod yn gweithredu'n ynysig heb lawer o gefnogaeth.'

'Mae clercod yn hanfodol. Mae rhai yn alluog i gael cymhwyster proffesiynol ac eraill yn rhai nad oes arnynt eisiau cael un.'

'Mae rhai prosesau cyfredol ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref yn hen ffasiwn, ee y diffyg amser [mae'n ei gymryd] i gwestiynau gael eu gofyn ac i atebion gael eu rhoi.'

Sut mae Cyngorau Tref a Chymuned yn cael eu dal i gyfrif

'Nid oes cysondeb o ran y llywodraethu gyda rhai Cyngorau Cymuned a Thref yn gweithredu fel y dymunant.'


'Mae angen cysondeb mewn llywodraethu.'

'Mae angen i Gyngorau Cymuned a Thref gynnwys unigolion sydd yn gwbl ddiuedd.'

'Mae etholiadau un ymgeisydd yn broblem. Cafodd niferoedd arwyddocaol o gynrychiolwyr naill ai eu hethol yn ddiwrthwynebiad neu eu cyfethol yn 2017.'

Sesiynau 'galw heibio' cenedlaethol

Cynhaliwyd sesiynau 'galw heibio' (map yn eitem 1) ym mis Mai i ganiatáu i drigolion rannu eu barn mewn lleoliad oedd yn agos atynt. Y bwriad oedd i'r digwyddiadau hyn gael eu cynnal ar yr un diwrnod er mwyn cael yr effaith fwyaf. Cynhaliodd y mwyafrif sesiwn 'galw heibio' ar 24 Mai 2018. Dewisodd llond llaw o gyngorau gyfuno eu sesiwn 'galw heibio' gyda digwyddiadau a drefnwyd ym mis Mai yn eu cymuned.



Darparwyd yr holl adnoddau oedd eu hangen ar y rhai oedd yn cynnal digwyddiad i roi cyhoeddusrwydd i'w digwyddiad ac i gofnodi adborth. Roedd ffurflenni adborth yn adlewyrchu'r cwestiynau a ofynnwyd fel rhan o'r arolygon i'r cyhoedd ac i ieuencid ac fe'u darparwyd yn ddwyieithog. Yn ogystal â'i gwneud yn bosibl i gannoedd efallai gael cyfle i gymryd rhan yn yr adolygiad, roedd hefyd yn cyd-fynd yn naturiol gyda'r rôl y mae Cyngorau Cymuned a Thref eisoes yn ei chwarae wrth ymgysylltu â'u cymunedau.

Anfonwyd gwahoddiadau i gynnal sesiwn 'galw heibio'	Dros 800	Pob Cyngor Cymuned a Thref, CGGC (WCVA), Cyngorau Gwirfoddol Sirol, Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig (EYST), Boy Scouts Cymru, Y Geidiaid, YMCA, Yr Eglwys yng Nghymru, Youth Cymru.
Gwahoddiadau a dderbyniwyd	86	
Gwahoddiadau a wrthodwyd	14	Nododd y rhai a wrthododd gynnal y digwyddiad resymau megis diffyg diddordeb, diffyg rhybudd (ni ellid cael cytundeb gan y cyngor o fewn yr amser a roddwyd), diffyg argaeledd a diffyg capasiti.
Dim Ateb	700+	
Cyfanswm a fynychodd	520+	Nid oedd llawer o'r rhai a gynhaliodd sesiynau yn gwybod beth oedd y ffigurau terfynol ar gyfer y rhai a fynychodd.
Cyfanswm yr adborth a ddychwelwyd	605+	

Roedd ffurflenni adborth yn seiliedig ar gwestiynau'r arolwg i'r cyhoedd ac i ieuencid, gyda chyfle i roi adborth ychwanegol ar ffurflenni ychwanegol.

Wrth ddadansoddi'r ymatebion, defnyddiwyd mwyafrif y ffurflenni adborth i godi materion penodol gyda'u Cyngorau Cymuned a Thref lleol yn ogystal â gwneud awgrymiadau am welliannau. Roedd sylwadau yn tynnu sylw at y dryswch ynghylch yr hyn y mae'r Cyngor Cymuned a Thref yn gyfrifol amdano, gan gyfeirio at faterion fel 'stopio adeiladu tai', 'glanhau'r baw cŵn', 'sortio'r sbwriel' ac 'adeiladu ffordd osgoi'.

Arolygon Ar-Lein

Cefnogwyd ein galwad am dystiolaeth gan bedwar arolwg ar-lein, wedi'u targedu at y grwpiau ymgysylltu a nodwyd a datblygwyd cwestiynau pwrpasol.



Hysbysebwyd yr arolygon ar-lein trwy wefan Llywodraeth Cymru ac fe'u rhannwyd hefyd gan randdeiliaid.

Cynhaliwyd y pedwar arolwg ar-lein yn:

<http://gov.wales/topics/localgovernment/communitytowncouncils/review-of-community-town-council-sector/?lang=cy>

Roedd y pedwar arolwg hefyd ar gael mewn copi caled ac fe'u cynigiwyd i'w llenwi mewn digwyddiadau ymgysylltu, gweithdai a sesiynau galw heibio.

Anogwyd pobl i gymryd rhan yn yr arolygon trwy ffyrdd megis:




- E-bost
- Cylchlythyr
- Cyfryngau cymdeithasol
- Gwefan Llywodraeth Cymru



Roedd eraill a gynorthwyodd i hyrwyddo'r arolygon yn cynnwys:

- Rhentu Doeth Cymru - cynhwyswyd erthygl yn eu cylchlythyr misol a anfonwyd at y rhai sydd wedi arwyddo i dderbyn diweddariadau.
- GWLAD - cynhwyswyd erthygl yn e-gylchlythyr Ionawr 2018 oedd yn cyrraedd cymunedau gwledig a ffermio.
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus - cynhwyswyd erthygl yn eu bwletin mis Chwefror
- Cangen Rhianta Llywodraeth Cymru - anfonwyd e-bost at yr holl Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn hyrwyddo'r adolygiad a'r arolwg.
- Gofynnwyd hefyd i Sefydliadau Ieuenctid, Anabledd a Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru hyrwyddo'r arolygon.

Roedd cyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd i bob arolwg fel a ganlyn:



Crynodeb o'r ymatebion - Yr hyn a ddywedasoeh wrthym

Trosolwg o'r Adborth o Ddigwyddiadau Ymgysylltu Rhanbarthol a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2018

Caernarfon

Beth ddylai CTC fod yn gyfrifol amdano?

Ymatebion a gafwyd sawl tro	Nifer
Pethau sy'n effeithio ar y gymuned	5
Y pethau y gallant ei wneud yn well na'r Awdurdod Lleol	4
Adlewyrchu dymuniadau ac anghenion lleol	3
Llais y gymuned	2
Maent yn wahanol a dylid eu trin yn wahanol	1
Gallai clystyru helpu CTC llai i ddyrannu gwasanaethau	1
Ni ddylai clystyru gael ei arwain gan y sir	1
Dyw clystyru ddim yn gweithio - dylai fod yn un corff	1
Mae darparu gwasanaeth yn wahanol i Lais y Gymuned	1
Os ydych chi'n gwneud CTC yn fwy, bydd LIC yn rhoi rhywbeth llai ar waith	1
Peidiwch ag ailddyfeisio'r olwyn	1
Os byddant yn gwneud mwy, mae angen mwy o adnoddau arnynt	1

Sut y dylent weithredu?

Ymatebion a gafwyd sawl tro	Nifer
Maer Etholedig / Aelod 'Tref' taledig ar gyfer ardaloedd penodol	2
Partner gyda chyrff allanol	1
Gall CTC gael gafael ar grantiau pan na all Cyngor Sir wneud hynny	1
Dim ond hyn a hyn y gellir ei wneud (diffyg adnoddau / capasiti)	4
Yn anodd pan nad yw'r darlun diwygio ehangach wedi ei ffurfioli	1
Anghysondebau ar hyn o bryd lle mae CTC yn gallu gwneud yr hyn maen nhw ei eisiau	1
Gonestrwydd, Bod yn Agored, Atebolrwydd	2
Cysylltu â phleidleiswyr	1
Proffesiynoli rôl clerod trwy bartneriaethau (tebyg i Ogwen)	2
Ffordd newydd o weithio (yn debyg i wledydd eraill)	2
Mwy o ddiddordeb / mwy o barch	1
Mae'r clerod yn bwysig ac mae angen cymorth arno	1

Beth sy'n eu rhwystro rhag darparu ar gyfer y gymuned leol?

Ymatebion a gafwyd sawl tro	Nifer
Diffyg perthynas / deialog barhaus gyda'r ALI (gwasanaethau)	11
Gallu - gallai dod â staff ychwanegol i mewn achosi problemau gyda lle / costau cudd	7
Cyllid	6
Diffyg sgiliau / arbenigedd	6
Nid yw rôl gyda mandad bob tro yn ystyried beth y gall CTC ei wneud yn gorfforol (Gofynion Swyddfa Archwilio Cymru)	4
Adnoddau	4

Diffyg arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru	4
Biwrocratiaeth	3
Naïfrwydd LIC o ran yr hyn y gall CTC ei wneud a sut maent yn gweithredu	2
Newid gofynion ynghylch staff a chynghorwyr	2
Cefnogaeth ac arweiniad	2
Dibynnu ar y CTC fel y cyswllt i'r ALI	1
Dylai clercod gefnogi, nid cyflenwi	1
Rheoliadau lechyd a Diogelwch	1
Mae ALI yn amharod i ollwng gafael ar yr hyn sydd ganddynt	1
Bwlio / Aflonyddu o fewn CTC	1
Gofynion Diogelu Data	1
Yr agosaf y mae penderfyniadau yn cael eu cymryd at y bobl y maent yn effeithio arnynt y gorau	1
Angen rhannu arferion da	1
Cefnogaeth i Un Llais Cymru	1

Sut mae cynghorau yn sicrhau eu bod yn cynrychioli eu cymuned leol orau?

Ymatebion a gafwyd sawl tro	Nifer
Ymgysylltu â'r gymuned (Cynnal cymorthfeydd / arolygon / cyfarfodydd cyhoeddus / Gwefan / cyfryngau cymdeithasol)	11
Diffyg ymgeiswyr	3
Atebolrwydd / Craffu	2
Gwneud cysylltiadau â grwpiau eraill	2
Cyfranogiad ieuencid	1
Nid oes gan gynghorwyr unrhyw ddiddordeb mewn newid pethau	1
Datblygu cynllun lle	1
Cyfethol yn dda ond yn adlewyrchu'r cyngor presennol	1
Llai o ysbryd cymunedol	1
Enghreifftiau da o gyflenwi	1
Angen cynghorwyr arbenigol	1

Wrecsam

Beth ddylai CTC fod yn gyfrifol amdano?

Ymatebion a gafwyd sawl tro	Nifer
Beth mae'r Gymuned am iddynt ei wneud	3
Gwasanaethau lleol	2
Dylent fod â hyblygrwydd yn eu pwerau	1
Gwasanaethau anstatudol	1
Gwasanaethau yn cael eu trosglwyddo heb gyllideb	1
Mae'n dibynnu ar y gyllideb	1
Cynrychioli'r gymuned	1
Gwella bywyd yn yr ardal leol	1
Dylai LIC bennu maint ac yna'r nod	1
Mwy o ddylanwad ar ddarparu gwasanaethau presennol	1

Sut y dylent weithredu?

Ymatebion a gafwyd sawl tro	Nifer
Cyllid (Modelau uniongyrchol / eraill)	3
Gwybodaeth arbenigol	3
Clerc proffesiynol	3

Gweithio gyda'i gilydd (CLG (SLA) rhwng cynghorau) a rhannu cyngor	2
Mwy o gefnogaeth i CTC llai	1
Mynediad at TG / Cyfryngau Cymdeithasol	1
Arian i ddod gyda gwasanaethau	1
Ymwneud â mwy na dim ond darparu gwasanaethau. Deddfwriaeth yn cael ei thrin yn wahanol gan bawb	1
Nid yw un maint yn addas i bawb	1
Goresgyn y rhai nad ydynt am gael hyfforddiant	1
Diffyg capasiti	1
Cadw hunaniaeth	1

Beth sy'n eu rhwystro rhag darparu ar gyfer y gymuned leol?

Ymatebion a gafwyd sawl tro	Nifer
Ffrydiau ariannu mwy gweladwy	2
Trosglwyddiadau byr / trafodaethau gyda'r ALI	1
Rhwystrau sy'n ymwneud â deddfwriaeth a threthu dwbl	1
Cynghorau HWB	1
Cyfyngu ar y praesept (adran 137)	1
Cadw hunaniaeth wrth weithio mewn partneriaeth	1
Pwrpas ar y cyd	1
Diffyg amrywiaeth	1
Amser ar gyfer hyfforddiant	1
Arbenigedd y clerc	1
Ychydig o ddylanwad ar gyllideb y Sir	1
Diffyg arbenigedd	1

Sut mae cynghorau yn sicrhau eu bod yn cynrychioli eu cymuned leol orau?

Ymatebion a gafwyd sawl tro	Nifer
Ymgysylltu â nhw trwy amrywiaeth o ffyrdd	2
Rheoli disgwyliadau	1
Ymgysylltu â phobl iau	1
Cymorth a chefnogaeth i ymgysylltu ag amrywiaeth ehangach o bobl	1
Ddim yn siŵr a fyddai gwasanaeth craidd yn gweithio	1
Gwybodaeth leol	1
Codi Arian	1

Caerfyrddin

Beth ddylai CTC fod yn gyfrifol amdano?

Ymatebion a gafwyd sawl tro	Nifer
Gwasanaethau Anstatudol Lleol	12
Gwell perthynas â'r Cyngor Sir	5
Diffyg cyllid	4
Gormod o gynghorau - pob siâp a maint	3
Atebion lleol yn hytrach nag un maint yn addas i bawb	3
Cynlluniau lle / 5 mlynedd	3
Gwranddo ar y gymuned leol	3
Beth am ardaloedd heb CTC	2
Eglurder ar rôl y Cyngor Sir	2
Twristiaeth	1
Mae biwrocratiaeth yn anodd i CTC llai	1

Cydweithio yn seiliedig ar feysydd diffiniedig ond yn cadw cynrychiolaeth leol	1
Y Sir i ymgymryd â phob gwasanaeth statudol gan gynnwys materion cyfreithiol	1
Rhan o fframwaith darpariaeth gymunedol leol	1
Mae angen traddodiadau ond rydyn ni'n dal ein gafael ar y gorffennol	1
Iechyd a diogelwch	1
Diffyg pwerau	1
Cynllun Blynnyddol	1
Trethu Dwbl	1
Terfynau (adran 137)	1

Sut y dylent weithredu?

Ymatebion a gafwyd sawl tro	Nifer
Cydweithio â chymdogion ar gyfer rhai gwasanaethau (angen ymddiriedaeth)	6
Mae gormod o CTC, mae strwythurau a ffiniau yn creu rhwystr	4
Isafswm hyfforddiant gorfodol	4
Ymgysylltu â'r gymuned / pobl iau	3
Atebolrwydd	2
Lwfansau i Gynghorwyr (gan gynnwys lwfans gweini)	2
Rhwydwaith cymorth gwell i gynghorau	2
Newid Deddfwriaeth	2
Cyfarwyddyd LIC	2
Rhannu clerod - gweinyddu symlach	2
Dylai presenoldeb fod yn orfodol	2
Rhannu arfer gorau	2
Gwell perthynas gyda'r Cyngor Sir	2
Deall rôl y clerc yn well	1
Pwyllgor / Is-bwyllgorau	1
Rhwydwaith cymorth i glerod	1
Pwerau ar gyfer gwasanaethau	1
Angen gwybod beth y gallwn ei wrthwynebu'n gyfreithlon	1
Cyfleoedd masnachu	1
Rhannu swyddogaethau swyddfa gefn	1
Mynediad at drethi busnes	1
Gormod o reolau	1
Partneru â sefydliadau cymunedol eraill	1
Dim gwleidyddiaeth plaid	1
Tryloywder	1
Disgrifiad swydd i'r clerc a'r cynghorydd	1

Beth sy'n eu rhwystro rhag darparu ar gyfer y gymuned leol?

Ymatebion a gafwyd sawl tro	Nifer
Ffrydiau cyllido (mynediad at grantiau)	5
Biwrocratiaeth	4
Gwell perthynas â'r Cyngor Sir	4
Adnoddau	3
Apathi	3
Cyngor i Gynghorau Cymuned a Thref	2
Hyfforddi cynghorwyr	2
Maer wedi'i ethol gan y gymuned / Cadeirydd diduedd	2

Lwfansau	2
Cynhwysiant / cymhwysedd digidol	2
Cyflymder / prosesau	2
Diffyg amrywiaeth	1
Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â'r gymuned	1
Agwedd aelodau	1
Gall iaith / termau a ddefnyddir dorri calon pobl	1
Sefydlu CTC lle nad ydynt yn bodoli	1
Ffiniau	1
Diffyg diddordeb mewn ymgysylltu	1
Llywodraethu	1
Trethu dwbl	1
Gweld cynghorwyr newydd fel rhai sy'n creu trwbl	1
Mae'r gymdeithas yn newid	1
Atebolrwydd	1

Sut mae cynghorau yn sicrhau eu bod yn cynrychioli eu cymuned leol orau?

Ymatebion a gafwyd sawl tro	Nifer
Ymgysylltu â'r gymuned trwy wahanol fecanweithiau	6
Sicrhau cyfathrebu i'r gymuned ac o'r gymuned.	2
Anwleidyddol	2
Cysylltu â'r gymuned yn rheolaidd	1
Tymor sefydlog i gynghorwyr	1
Gweithredu fel y llais lleol	1
Nid yw taliad bach yn denu pobl iau	1
Diffyg amrywiaeth	1
Cost etholiad	1

Caerdydd

Beth ddylai CTC fod yn gyfrifol amdano?

Ymatebion a gafwyd sawl tro	Nifer
Gwasanaethau Lleol	15
Cynllunio	14
Nid yw un maint yn addas i bawb	5
Cynnwys cymunedau mewn sgysiau	5
Mater i'r CTC ddylai hyn fod	4
Deddf Llesiant - pum ffordd o weithio	3
Cynlluniau lle sy'n cyd-fynd â'r cynllun datblygu lleol	3
Asesiad blynyddol ar gyfer cymhwysedd	2
Rhannu arfer gorau	2
Sut allwch chi gael mwy o gyfrifoldebau os yw adolygiadau eraill yn ceisio lleihau nifer y cynghorwyr	2
Yr hyn sydd ei angen ar y gymuned	2
Atal yn hytrach na gwella / rhagweithiol nid adweithiol	2
Cysylltiadau strategol / gwell perthynas	2
Mwy o gyfrifoldebau a phwerau	1
Mae cymunedau yn barod iawn i herio	1
Gallai cynyddu'r precept fod yn anodd	1
Cyfrifoldeb am neu wrthwynebiad i wario'r praesept	1
Mwy o bwysau mewn ymgynghoriadau	1
Annog arloesedd	1

Canolbwyntiau cymunedol	1
Meddwl yn strategol	1
Cydluniant Cymunedol	1
Gwasanaethau ddim yn cael eu dympio ar CTC	1
Cyswllt ag addysg	1

Sut y dylent weithredu?

Ymatebion a gafwyd sawl tro	Nifer
Hyfforddiant ar gyfer aelodau a chlercod - mecanwaith ar-lein	10
Cyngor arbenigol a rennir	5
Perthnasau da gyda'r ALI a phartneriaid	5
Rhannu clercod - ond gallai hyn effeithio ar wybodaeth leol	5
Cydweithio / rhannu rolau	4
Cymhwysedd CTC - sut mae CTC da yn edrych	3
Cynrychiolwyr ieuenctid	3
Rhannu arfer gorau	3
Cyllid	3
Cynllun Corfforaethol / Gweledigaeth	3
Esbonio'r rôl i'r gymuned	3
Gwell cefnogaeth i gynghorau	2
Cyflenwi gwasanaeth a chynrychiolaeth	2
Angen cymunedol	2
Sgiliau cynghorwyr	2
Ymddygiad cynghorwyr	1
Clercod yn cael eu llethu gan faint o wybodaeth sydd angen ei thrin - dylid crynhoi hyn	1
Atebolrwydd	1
Os yn fwy, mwy anodd ymgysylltu	1
Cydbwysedd rhwng bod â phethau / gwasanaethau	1
Cadw at y cyfreithiau cyfredol	1
Gwirfoddolwr yn y gymuned i gyflenwi prosiectau	1
Cyflogwyr i roi amser i ddyletswyddau'r cyngor (hy hyfforddiant)	1
Ymgysylltu	1
Cynllun pensiwn anghyfrannol	1
Rôl glir rhwng CTC a'r Sir	1
Proses sefydlu ar gyfer clercod	1
Newid model lleol y Cod Ymddygiad	1
Capasiti	1
Hyfforddiant o flaen deddfwriaeth	1
Treuliau i gynghorwyr	1

Beth sy'n eu rhwystro rhag darparu ar gyfer y gymuned leol?

Ymatebion a gafwyd sawl tro	Nifer
Arian (gan gynnwys capiau)	14
Costau etholiad	8
Gwleidyddiaeth	7
Perthynas ag ALI	6
Diffyg dealltwriaeth o CTC	5
Sifftio trwy wybodaeth - angen crynodeb	4
Diffyg ymgysylltiad / gwybodaeth	3
Ni roddir digon o bwys ar farn CTC	3
Arian cyfatebol ar gyfer hyfforddiant	3

Dim cysylltu'r haenau i fyny at Lywodraeth Cymru	3
Hyfforddiant Gorfodol	3
Cyngor a chefnogaeth i ymgeiswyr	3
Cefnogaeth i Un Llais Cymru	2
Cyfrifoldeb clir	2
Cyfetholiadau	2
Trethu dwbl	2
Cefnogaeth i sefydlu CTC	2
Perthnasedd y Ddeddf Llesiant i CTC	2
Cynghorwyr gyda 'hen syniadau'	2
Diffyg capasiti	2
Diffyg sylw	2
Dim digon o gydnabyddiaeth i'r clerc neu'r cynghorydd	1
Nifer y cynghorwyr (gostyngiad arfaethedig)	1
Pwysau ar CTC o ran taliadau cydnabyddiaeth	1
Gwasanaethau anstatudol	1
Gallai gwisgo dwy het helpu perthnasoedd	1
Diffyg ymateb - araf	1
Diffyg sgiliau	1
Amser	1
Statws gwirfoddol	1
Defnyddio arbenigedd lleol hyd yn oed os nad ydynt yn gynghorydd	1

Sut mae cyngorau yn sicrhau eu bod yn cynrychioli eu cymuned leol orau?

Ymatebion a gafwyd sawl tro	Nifer
Ymgysylltu â phobl ifanc	8
Cyswllt ag ysgolion	5
Cynllun ymgysylltu â'r gymuned	1
Ymgysylltu â'r gymuned trwy amrywiaeth o ffyrdd	22
Etholiadau democrataidd	2
Dywedwch wrth y gymuned beth maen nhw'n ei wneud	2
Hyfywedd	1
Cynyddu amrywiaeth	15
Angen ei wneud yn apelgar	2
Ystyriwch ymrwymïadau	3
Gosod nodau a chatau gweithredu cyrhaeddiad	2
Cael mwy o gynrychiolwyr	1
Sesiynau cyhoeddus gorfodol	1
Diffyg ymagwedd gyson wrth ymgysylltu	1
Mae etholiadau yn peri i ymgeiswyr golli diddordeb	1

Trosolwg o'r Adborth o Weithdai Awdurdodau Lleol a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2018

Beth ydy Cyngorau Cymuned a Thref?

Nododd y rhai a fynychodd anghysondeb rhwng Cyngorau Cymuned a Thref gyda rhai o'r rhai llai yn gwneud fawr mwy na gallu talu costau cynnal hanfodol. Mae gwahanol fathau o Gynghorau Cymuned a Thref sy'n cydnabod y gwahaniaeth rhwng cynghorau Tref a Gwledig. Mae yna hybridau a deinameg gwahanol hefyd

ond yn y pen draw nid yw un maint yn addas i bawb. Mae rhai Cyngorau Cymuned a Thref yn dda iawn ond mae yna lawer o Gyngorau Cymuned a Thref gwael iawn. Nid yw rhai Cyngorau Tref a Chymuned yn gallu deall eu pwrpas ac maent yn trin arian fel pe bai yn arian sy'n perthyn iddyn nhw eu hunain - gan ddewis peidio â'i wario, hyd yn oed os yw er budd y gymuned.

Teimlid os oes pwysau ar Awdurdodau Lleol i weithio'n fwy rhanbarthol, un rôl bwysig i Gyngorau Cymuned a Thref yw sicrhau cynrychiolaeth ddemograffig yn nes at y gymuned. Ni ddylid diddymu Cyngorau Cymuned a Thref gan eu bod yn gwybod am y problemau yn eu cymunedau ond mae angen newid er mwyn iddynt fod yn fwy effeithlon. Mae angen mwy o bŵer ar Gyngorau Cymuned a Thref hefyd i gyflawni'r rôl hon. Pe bai gan Gyngorau Cymuned a Thref bwerau ychwanegol, yna mae angen ymddiried mewn Cyngorau Cymuned a Thref i weithio'n gyfrifol a pheidio ag ymyrryd yn ormodol.

Beth mae Cyngorau Cymuned a Thref yn ei wneud?

O ran cyflenwi gwasanaethau, roedd angen cyflenwi'r rhain o'r lle iawn ar yr adeg iawn. P'un a ddylai hyn fod gan Gyngorau Cymuned a Thref - mae hynny'n amheus. Mae grwpiau cymunedol mewn ardaloedd heb Gyngorau Cymuned a Thref yn cyflawni ac yn cefnogi'r gymuned.

Mynegwyd barn bod llawer o Gyngorau Cymuned a Thref yn credu mai eu hunig rôl yw dangos apathi a chwyno. Ond bu rhywfaint o lwyddiant ledled Cymru i gadw gwasanaethau ar agor trwy gael Cyngorau Cymuned a Thref i gyfrannu at eu cynnal. Mae'r rhan fwyaf o'r cyngorau gwledig bach yn ei chael hi'n anodd gwneud unrhyw beth oherwydd eu maint. Nid yw Cyngorau Cymuned a Thref llai yn fodlon ystyried model partneriaeth oherwydd eu bod am fod yn annibynnol ac maent yn credu y bydd y cyngor tref mwy yn eu llyncu. Mae'r ffordd hon o weithio yn effeithiol ac yn osgoi dyblygu.

Roedd y rhai a fynychodd yn teimlo bod y trafodaethau a gynhaliwyd yn y gorffennol rhwng Awdurdodau Lleol a Chyngorau Cymuned a Thref yn rhoi'r teimlad bod Cyngorau Cymuned a Thref yn cael eu cyfyngu gan eu dyheadau a'u gallu. Yn ogystal, mae gan Gyngorau Cymuned a Thref gymysgedd o bwerau eclecig y mae angen eu hadolygu.

Sut mae Cyngorau Cymuned a Thref yn ei wneud?

Mae rhai prosesau cyfredol ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref yn hen ffasiwn, er enghraifft, y diffyg amser i gwestiynau gael eu cyflwyno ac i atebion gael eu rhoi. Dylai hyn fod yn rhan o arfer safonol a gellid amlygu enghreifftiau o arfer da a gwael iawn.

Mewn perthynas â chyngor arbenigol, nodwyd bod gan Awdurdodau Lleol gefnogaeth gorfforaethol ac ystod eang o arbenigedd. Gall clerod deimlo eu bod wedi'u hynysu heb lawer o gefnogaeth. Mae angen newid diwylliant mewn Cyngorau Cymuned a Thref gan fynd at y clerc am bopeth. Cyngorau Cymuned a Thref yw'r cyflogwr felly os nad oes gan y clerc yr offer sydd ei angen arno, mae

angen iddo ddod o hyd iddo. Yn aml gallai natur ddeinamig y Cyngor Cymuned a Thref ddibynnu ar ba mor ddeinamig yw'r clerc.

Mae gan rai Awdurdodau Lleol fforwm i ymgynghori bob chwarter gyda Chynghorau Cymuned a Thref yn eu hardal, ond mewn rhai ardaloedd mae'r cyswllt yn amrywio yn dibynnu ar amser y flwyddyn. Ym Mhowys yn arbennig, nid oes mecanwaith rheolaidd ffurfiol ac fel clerc, gall fod yn sefyllfa eithaf ynysig. Mae clercod sy'n aelodau o SLCC yn cael cymorth. Mae'n bwysig i glercod rannu profiadau â chlercod eraill. Mewn perthynas â chyngor arbenigol / technegol, mae swyddog monitro'r Awdurdod Lleol yn rhoi cyngor ar y cod ymddygiad ond mewn perthynas â materion eraill (megis cyflogaeth) nid oes cyngor na chymorth ar gael.

Dylai pob clerc fod â chymhwyster proffesiynol gan fod cynghorwyr yn edrych tuag at glercod i roi cyngor ynghylch eu rôl. Mae Un Llais Cymru yn cynnig hyfforddiant ar rôl y cynghorydd ond nid yw'n glir faint o gynghorwyr sy'n ymgymryd â'r hyfforddiant. Mae cynghorwyr newydd yn awyddus i ymgymryd â hyfforddiant ond nid yw aelodau sydd wedi bod yn gynghorwyr yn hirach yn dymuno gwneud hynny. Dylai hyn fod yn ofyniad craidd.

Gallai aelodau sy'n gwisgo dwy het sgiwio penderfyniadau a golygu bod yno wrthdaro buddiannau. Serch hynny, gallai fod â manteision cadarnhaol a negyddol i Gynghorau Cymuned a Thref. Dylai fod yn ddewis yr aelod ac efallai gyda rôl ehangach ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref, y byddai'n eithrio cynghorwyr lleol oherwydd cyfyngiadau amser. Dylai cynghorwyr sir ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned yn eu hardaloedd yn rheolaidd ond cydnabuwyd y gallai hyn fod yn anodd pan fo nifer fawr yn eich ardal chi.

Sut mae Cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu dal i gyfrif

Roedd y rhai a fynychodd yn teimlo, er gwaethaf llawer o gynghorau Cymuned a Thref yn credu eu bod yn wirfoddolwyr, eu bod mewn gwirionedd yn gynrychiolwyr etholedig sy'n gyfrifol am arian cyhoeddus. Gellid gofyn i'r Panel Annibynnol sy'n ymdrin â Thaliadau Cydnabyddiaeth edrych eto ar hyn os bydd rolau a chyfrifoldebau Cynghorau a Chynghorwyr Cymuned a Thref yn newid.

Mae angen diwygio Deddf Llywodraeth Leol 1972 i'w dwyn i mewn i'r 21ain ganrif. Er enghraifft, dylid arddangos hysbysiad am swyddi gwag ar-lein a'i rannu trwy'r cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â hysbysfyrddau lleol. Mae angen plismona'r cod ymddygiad yn gryfach (ar hyn o bryd drwy'r swyddog monitro a'r Awdurdod Lleol). Cytunwyd y dylid bod â set graidd o safonau ar gyfer yr holl Gynghorau Cymuned a Thref.

Credir os bydd gan Gynghorau Cymuned a Thref rôl fwy, y bydd problem gydag atebolrwydd a llywodraethu. Teimlid y byddai angen mwy o gefnogaeth ar Gynghorau Cymuned a Thref i ddeall eu cyfrifoldebau a'u gwrthdaro o ran buddiannau.

Teimlwyd bod angen mwy o eglurder ynghylch cyllid a bod angen i Gynghorau Cymuned a Thref fod yn atebol am yr arian cyhoeddus y maent yn ei wario (gwerth am arian).

Arolwg Ar-lein y Cyhoedd - Crynodeb o'r canlyniadau

C1. Ydych chi'n ymwybodol o Gyngor Cymuned neu Gyngor Tref yn eich ardal?

Atebodd y mwyafrif helaeth, bron 94%, o bobl (425) Ydw. Atebodd cyfran fach iawn o ymatebion (3% neu 14 o bobl) Nac ydw. Gadawodd yr un ganran fechan (3% neu 14 o bobl) y cwestiwn hwn yn wag.

C2: Ydych chi'n gwybod beth mae eich cyngor yn ei wneud?

Unwaith eto, atebodd y mwyafrif o bobl (74% neu 336 o ymatebion) Ydw. Ond ymatebodd tua chwarter (24% neu 110 o ymatebion) nad oeddent yn gwybod beth mae eu cyngor yn ei wneud. Gadawodd 7 o bobl y cwestiwn hwn yn wag.

C3: Beth hoffech chi weld eich cyngor yn ei wneud?

Ymatebion a gafwyd sawl tro	Nifer
